6. A'i chadw hi a'i chynnal,
Yn glaf neu yn iach,
O'r dydd yma allan,
Er gwell neu er gwath?"
Twdl-di rei-di . . .

7. Wel, fe ddeson gatre o'r eglws
Bwtu dri o'r gloch prynhawn;
'Roedd y bordydd oll wedi'u gwisgo
A'r dysgle i gyd yn llawn.
Twdl-di rei-di . . .

8. 'Roedd yno win a claret,
Cig berw a chig rost,
A ninnau'll dau, yn ieuanc,
Ddim yn hido beth we'r gost.
Twdl-di rei-di . . .

9. Ond d(ih)unes i'r ail fore
Gyda thoriad gwawr y dydd.
A beth oedd wrth fy ochor
Ond twsw bach o bluf.
Twdl-di rei-di . . .

10. Ac yn awr 'rwy'n fachgen teidi,
Mae arian gen i'n stôr,
A phan ddaw mish y fale
Fi af lawr i ddŵr y môr.
Twdl-di rei-di . . .

Tâp AWC 609. Recordiwyd 10.8.63 gan John Thomas (peiriannydd, g. 1912), Felin, Abercastell, Mathri, sir Benfro. Pan oedd yn blentyn dysgodd JT y gân hon o glywed ei chanu gan ei ewyrth, Ben Phillips, sef 'Ben Bach' (1871–1958), y canwr gwerin enwog.